# Cofnodion

| | |
|---|---|
| **Teitl y cyfarfod:** | Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF) ar Lygredd Amaethyddol |
| **Lleoliad:** | Cyfarfod Microsoft Teams |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 18 Tachwedd 2024 |
| **Aelodau yn bresennol:** | Yr Athro Rhys A. Jones, Aelod Bwrdd CNC (Cadeirydd)<br>Michelle Griffiths, CNC<br>Dennis Matheson, TFA<br>Sarah Jones, Dŵr Cymru Welsh Water<br>Sarah Hetherington, CNC<br>David Ball, AHDB<br>Nichola Salter, CNC<br>Chris Mills, Afonydd Cymru<br>Einir Williams, Cyswllt Ffermio<br>Creighton Harvey, CFF<br>Matt Walters, Llywodraeth Cymru<br>Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru<br>Betsan John, Llywodraeth Cymru<br>Cat Osborne, Llywodraeth Cymru<br>Gemma Haines, UAC<br>Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru<br>Marc Williams, CNC |
| **Mynychwyr ychwanegol:** | Dr Susannah Bolton |
| **Ymddiheuriadau:** | Fraser McAuley, CLA<br>Gareth Parry, UAC |
| **Ysgrifenyddiaeth:** | Bronwen Martin, CNC |

## Eitem 1. Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a datganiadau o fuddiant

1. Croesawodd yr Athro Rhys A. Jones (Aelod Bwrdd CNC a Chadeirydd Is-Grŵp WLMF) bawb i gyfarfod Microsoft Teams a nododd ymddiheuriadau.

2. Sylwch fod y cyfarfod yn cael ei recordio at ddiben cadw'r cofnodion a bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cymeradwyo.

3. Ni chodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn perthynas ag eitemau agenda.

- DS: Mae holl aelodau'r grŵp wedi llenwi ffurflenni datganiadau o fuddiant eisoes ond dylent hefyd ddatgan os oes ganddynt fuddiant mewn unrhyw beth ar yr agenda.

## Eitem 2. Adolygiad o'r cofnodion a chamau gweithredu

4. Cadarnhaodd Rhys unwaith y bydd cofnodion y cyfarfod wedi cael eu hadolygu a'u cytuno'n ffurfiol gan y grŵp, y byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan CNC er mwyn i'r cyhoedd gael mynediad atynt. Felly, mae'n bwysig bod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.
5. Bu'r grŵp yn adolygu cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Hydref 2024. Gofynnodd Crieghton Harvey, CFF am i rai o'r ystadegau a'r sylwadau o'r cyfarfod gael eu nodi yn y cofnodion. Bydd Bronwen yn adolygu'r cofnod ac yn diwygio'r ddogfen yn unol â hynny. Serch hynny, derbyniwyd y cofnodion gan y grŵp fel cofnod cywir.
6. Rhannodd Bronwen y camau gweithredu sydd heb eu cyflawni a rhoddwyd diweddariadau llafar lle bo'n bosibl. Mae trafodaethau penodol yn cynnwys:

- Pwynt Gweithredu Mehefin 03: Yr Athro Rhys Jones a Bronwen Martin i dynnu ymatebion y grŵp at ei gilydd i bob un o'r argymhellion o fewn adroddiad Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA a'i gylchredeg i'r grŵp.

    - Ym mis Mehefin, bu'r grŵp yn edrych yn ôl ar yr argymhellion yn yr adroddiad. Mae'r drafodaeth wedi ei chrynhoi ac rydym yn edrych ar y camau nesaf ar gyfer drafftio llythyr. Soniodd Rhys fod rhai heriau megis ansicrwydd ynghylch at bwy y dylid anfon llythyr. Dylai fod gennym fwy i'w ddweud am hyn yng nghyfarfod mis Rhagfyr. Tynnodd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru sylw at y ffaith bod y cam gweithredu hwn yn dod o gyfarfod mis Mehefin, a gofynnodd a fyddai'n dal i fod yn berthnasol ym mis Rhagfyr. Dywedodd Rhys y bydd yn dal yn berthnasol oherwydd bod yr adroddiad yn dal yn berthnasol ac yn fyw. Cadarnhaodd David Ball, AHDB na chafwyd ymateb nac adborth uniongyrchol gan unrhyw un ynglŷn â'r adroddiad na'r argymhellion, felly byddai'n fuddiol i Is-grŵp WLMF ymateb i'r grŵp comisiynu i gydnabod yr adroddiad a gofyn a oes modd rhoi sylw i'r camau nesaf. Soniodd Marc Williams, CNC nad yw'r Grŵp Goruchwylio yn bodoli mwyach. Roedd Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd yr ACA yn ganlyniad i drafodaethau sector blaenorol yn 2021-2022 ynghylch Afonydd yr ACA, modelu SAGIS dilynol ac awgrym gan Gadeirydd blaenorol Is-grŵp WLMF yn nodi ei bod yn werth sefydlu grŵp technegol i nodi a deall materion mewn afonydd ACA. Dywedodd Cat Osborne, Llywodraeth Cymru nad oedd yn glir pwy oedd yn berchen ar yr adroddiad, ac nid oedd yn glir pwy oedd wedi ei gymeradwyo a phwy sydd heb ei gymeradwyo. Byddai angen arweiniad clir, a dylai'r perchennog hwnnw ei anfon yn uniongyrchol at y Gweinidog. Rhannodd Cat rai o'r camau gweithredu o Gynllun Gweithredu'r Uwchgynhadledd Ffosffad. Awgrymodd Chris fod rhywfaint o ddysgu o'r profiad hwn ar gyfer mentrau yn y dyfodol, er enghraifft sicrhau bod comisiwn clir, nodi'r gynulleidfa darged, ble y dylid ei anfon ac ati.

- Pwynt Gweithredu Hydref 02: Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru i roi adborth i RPW ar y sylwadau a wnaed gan Gareth Parry, UAC ynghylch y safonau trawsgydymffurfio diwygiedig y gellir eu dilysu.

- Cadarnhaodd Andrew ei fod wedi bwydo hyn i RPW ac nid oes dim i adrodd yn ôl. Gweithred wedi'i gwblhau.

- Pwynt Gweithredu Hydref 03: Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru i roi mwy o wybodaeth am swyddogion sy'n mynd i ffermydd cyn ymweliadau fel y gall Nicola Mills, CNC edrych i'r mater.

  - Dywedodd Rachel fod yr aelodau NFU dan sylw yn gyndyn iawn i ddarparu manylion oherwydd materion ymddiriedaeth - nid ydynt am wneud pethau'n waeth iddyn nhw eu hunain ac nid ydynt yn dymuno tynnu mwy o sylw at y peth. Awgrymodd Rachel fod angen datrys y mater hwn ar lefel polisi - mae'n bwysig bod yn glir bod llythyrau'n cael eu hanfon ymlaen llaw yn hytrach na bod Swyddogion yn dod i'r iard i ddweud wrth ffermwyr bod archwiliadau'n digwydd. Gweithred wedi'i gwblhau.

- Pwynt Gweithredu Hydref 04: Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru i ddarparu gwybodaeth am ddadansoddiad o'r holl gynlluniau a'r cyfnodau y dyrannwyd y £52 miliwn hwnnw iddynt.

  - Mae Andrew yn ceisio'r wybodaeth hon a gobeithio y bydd ganddo ddiweddariad i'w rannu yng nghyfarfod mis Rhagfyr.

## Eitem 3. Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021: Adolygiad 4 blynedd

7. Roedd Dr Susannah Bolton (Cadeirydd Annibynnol yr Adolygiad) yn ddiolchgar am gyfle arall i ymgysylltu â'r grŵp ynghylch y broses adolygu 4 blynedd o fewn Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021.

8. Mae Cylch Gorchwyl yr adolygiad wedi'i gyhoeddi'n ddiweddar gan Lywodraeth Cymru a dosbarthwyd dolen cyn y cyfarfod - Adolygiad statudol o'r Reoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol: cylch gorchwyl | LLYW.CYMRU.

9. Gofynnodd Susannah gyfres o gwestiynau i'r grŵp eu hystyried a'u trafod.

10. **Cwestiwn 1a:** Gan ganolbwyntio ar y terfyn rheoleiddio o 170kg/ha ar gyfer unrhyw fusnes fferm, gofynnwyd i'r grŵp faint o fusnesau a pha fath o fusnesau y bydd y cyfyngiad hwn yn effeithio arnynt.

11. Cofiodd David Ball, AHDB fod y Dull Rheoli Maetholion Gwell (ENMA) wedi arwain at 9 fferm yn hysbysu eu bwriad i ddefnyddio'r dull hwnnw. Fodd bynnag, cydnabyddir yn gyffredinol y byddai'r terfyn hwnnw wedi effeithio ar lawer mwy o ffermydd. Er ei bod yn anodd iawn dweud faint o ffermydd eraill fyddai wedi cael eu heffeithio gan mai tystiolaeth anecdotaidd yn unig yw hon. Efallai bod rhai ffermwyr wedi llwyddo i fodloni'r gofyniad o 170kg/ha drwy wneud trefniadau gyda ffermydd lleol eraill er enghraifft, naill ai drwy allforio tail neu gael mynediad at dir ychwanegol. Serch hynny, nid yw'r 9 fferm yn ddangosydd diogel o faint yr effeithiwyd arnynt.

12. **Cwestiwn 1b:** Gofynnodd Susannah am natur y busnesau hynny a'r heriau sy'n gysylltiedig â'r terfyn 170kg/ha.

13. Dywedodd Einir Williams, Cyswllt Ffermio fod 19 o Swyddogion Datblygu Cyswllt Ffermio yn gwasanaethu Cymru. Ar hyn o bryd mae canran eithaf uchel o'r galwadau a gânt gan ffermwyr sy'n pryderu am y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol. Daw'r ffermydd hynny o bob sector, o bob maint, nid yn fentrau penodol - ceir pryder cyffredinol o fewn y diwydiant. I grynhoi, mae'n anodd ei gyfyngu i fath arbennig o fferm ac mae'n ymddangos bod pryderon o ystod o sectorau a ffermydd o wahanol faint.

14. Dywedodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru mai'r pwynt cyntaf i'w egluro yw bod y terfyn 170kg/ha yn dod o dail da byw. I'r gwrthwyneb, mae'r rheoliad hwn yn arwain ffermwyr i ffwrdd o ddefnyddio eu maetholion eu hunain a'u hailgylchu'n unol â'r economi gylchol, ac i ddefnyddio gwrtaith wedi'i weithgynhyrchu. Felly, mae canlyniadau anfwriadol gyda'r terfyn 170kg/ha. Soniodd Rachel am waith modelu y mae AHDB wedi'i wneud yn edrych ar effeithiau posibl yn benodol ar y sector llaeth. Yn ogystal, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i gynnal Asesiad Effaith Rheoleiddio o effaith y terfyn 170kg/ha.  Mae tystiolaeth anecdotaidd NFU Cymru yn awgrymu bod yr effaith yn mynd y tu hwnt i'r sector llaeth, mae busnesau eraill yn cael eu heffeithio hefyd. Daeth arolwg ffermwyr NFU i ben yn ddiweddar ac mae'n bosibl y bydd rhywfaint o fewnwelediadau defnyddiol o fewn yr ymatebion - bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu gyda Susannah cyn gynted â phosibl.

15. Cofiodd Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru, sylwadau Einir a gofynnodd a oedd y galwadau ffôn a dderbyniwyd gan ffermwyr yn benodol i'r mesur 170kg/ha o fewn y Rheoliadau neu a oeddent yn ymwneud â'r rheoliadau yn eu cyfanrwydd. Dywedodd Einir eu bod yn ymwneud â'r ddau - mae Swyddogion Datblygu'n treulio llawer o amser yn cefnogi ffermwyr sydd wedi'u heffeithio gan y rheol 170kg/ha - er bod hyn yn effeithio mwy ar y sector llaeth yn gyffredinol.

16. **Cwestiwn 1c:** Dywedodd Susannah ei bod yn amlwg bod her o ran faint o dail organig y gallai fod yn rhaid i rai busnesau ei daenu er mwyn cael gwared arno ond bod her hefyd o ran rhoi sylw i ofynion y cnwd. Gofynnodd Susannah beth mae busnesau fferm yn ei wneud ar hyn o bryd i wneud yn siŵr bod y ceisiadau yn cyfateb yn fwyaf effeithiol i anghenion o ran cnydau.

17. Dywedodd Rachel fod y terfyn 170kg/ha yn gadael pobl gyda thri opsiwn:

    1. allforio
    2. cymryd mwy o dir neu
    3. leihau eu lefel stocio

    Atgoffodd Rachel y grŵp fod yr heriau hyn yn achosi problemau i ffermwyr â TB Buchol oherwydd cyfyngiadau symud a chyfyngiadau eraill. Mae nifer sylweddol o fusnesau yn cael eu heffeithio gan TB ar unrhyw adeg benodol ac nid yw'r ffermwyr hyn yn gallu allforio eu gwartheg. Trafododd Rachel y 170 kg/ha a chyd-destun yr angen am gnydau yn enwedig mewn systemau sy'n seiliedig ar laswellt. Mae'r rheoliadau eu hunain yn cydnabod y gallwch chi daenu ar laswelltir yn dibynnu ar faint o doriadau rydych chi'n eu cymryd ac yna mae ffermwyr yn defnyddio maetholion a weithgynhyrchwyd yn hytrach na defnyddio eu maetholion eu hunain mewn ffordd lawer mwy cylchol.

18. Dywedodd David mai'r terfyn hwn yw'r cyfartaledd ar draws y daliad. O ystyried y byddai gan lawer o ffermydd orchudd o laswelltir gweddol ddwys a fyddai â galw uwch o nitrogen na 170kg/ha, trwy gadw'r terfyn, mae'n cyfyngu ar allbwn y cnwd oni bai eich bod yn defnyddio gwrtaith a weithgynhyrchwyd. Felly, nid yw'r elfen gwaredu gwastraff

yn berthnasol mewn gwirionedd oherwydd nid ydynt yn diwallu’r angen o ran cnydau beth bynnag. Awgrymodd David mai cefndir y rheol 170 kg/ha yw rheolaeth ar gyfradd stocio sy'n ceisio lleihau'r dwysedd pori. Trafododd David yr elfennau sydd o dan reolaeth y ffermwr yng nghyd-destun y rheol 170kg/ha, yr angen o ran cnydau, pori estynedig a storio slyri.

19. O ran y 170kg/ha nad yw'n diwallu'r angen o ran cnydau, gofynnodd Chris am y nitrogen a'r ffosfforws gweddilliol yn y pridd, onid oes angen ystyried hynny hefyd. Dywedodd David y dylid ystyried hyn yn y Cynllun Rheoli Maethynnau, neu yn yr achos hwn mewn Cynllun Rheoli Nitrogen. Ond serch hynny, ni fyddai'n llenwi bwlch y gwahaniaeth rhwng 170kg/ha ac angen y cnwd.

20. **Cwestiwn 2:** Soniodd Susannah am y ffaith mai dim ond 9 hysbysiad oedd i ddefnyddio'r ENMA. Gofynnodd Susannah i’r grŵp pam fod cyn lleied wedi hysbysu, o ystyried y ffactorau a godwyd mewn perthynas â’r cyfyngiadau y mae busnesau fferm yn delio â nhw o ran y 170 kg/ha.

21. Awgrymodd David fod cymhlethdod yr hyn sy'n ofynnol o dan yr ENMA wedi atal llawer o ffermwyr rhag hysbysu. Roedd y broses yn llawer rhy gymhleth iddynt ddilyn y trywydd hwnnw. Byddai ffermwyr wedi gwneud trefniadau amgen cyfreithlon, a oedd yn golygu eu bod yn cydymffurfio â’r rheoliadau.

22. Cytunodd Einir â David a dywedodd fod Cyswllt Ffermio wedi clywed mai dyma'r rheswm nad oedd ffermwyr wedi hysbysu. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth i gefnogi hyn, dim ond adborth gan ffermwyr. Mae'n debyg bod rhai ffermwyr yn amharod i ddangos eu bod angen mynd dros 170kg/ha rhag ofn iddynt gael eu nodi fel 'fferm broblemus'.

23. Dywedodd Rachel nad yw ffermwyr yn meddwl amdano fel 'gwaredu' tail oherwydd nad yw'r 170 kg/ha yn bodloni angen y cnydau ar gyfer eu glaswelltir. Cytunodd Rachel fod yr ENMA yn broses hynod gymhleth a bod ffermwyr yn amharod i gymryd rhan yn hynny. Mae'r NFU wedi cynnal eu harolwg a dylai hwn fod yn fewnwelediad defnyddiol i'r cwestiwn penodol hwn. Dywedodd Rachel fod cwestiwn allweddol ynghylch pa mor ymarferol ydoedd fel ateb, oherwydd bod y broses yn gymhleth iawn.

24. **Cwestiwn 3:** Dywedodd Susannah fod busnesau fferm hefyd yn canolbwyntio ar gynhyrchu a bod cymhellion amrywiol wedi bod i gynyddu cynhyrchiant. Fodd bynnag, mae heriau i hyn. Gofynnodd Susannah a yw'n debygol neu'n bosibl bod rhai mathau o fusnesau lle nad yw'r model busnes yn gweithio ond sy’n dal i lwyddo i gydymffurfio â'r rheoliadau (e.e., cynhyrchu gormod o slyri i'w reoli'n effeithiol).

25. Dywedodd Rachel fod y gwahanol rannau o'r rheoliad yn tynnu ffermwyr i wahanol gyfeiriadau. Mae gofynion ynghylch storio slyri, a fydd mewn rhai achosion yn ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr wneud buddsoddiadau enfawr. Mae rhywfaint o gymorth grant ar gael, ond dim ond ar gyfer 40% ac mae’n rhaid i’r ffermwyr gyflwyno’r achos busnes i’r banc o hyd am y 60% sy’n weddill. Sut y gall ffermwyr gyflwyno’r achos hwnnw i’r banc pan fo rhan arall o’r rheoliad yn gofyn am dorri niferoedd da byw – mae’r rhain yn rhannau o’r rheoliadau sy’n gwrthdaro. Lle mae angen buddsoddiad, yn aml mae angen cymorth buddsoddi gan y banc ac ni all ffermwyr wneud y buddsoddiad hwnnw ar sail lleihau nifer y da byw. A siarad yn gyffredinol, dyma’r tensiynau y mae ffermwyr yn gorfod eu datrys. Mae hyn heb ddod â'r sector â thenantiaid i mewn sy'n debygol o wynebu mwy o heriau wrth sicrhau'r cyllid angenrheidiol. Weithiau maent yn

wynebu landlord na all wneud y buddsoddiad hwnnw yn seilwaith y fferm. Mae hwn yn fater cymhleth iawn, ac mae ffermwyr wedi'u rhoi mewn sefyllfa anodd o geisio bodloni gofynion gwahanol rannau o'r rheoliad.

26. Soniodd Dennis Matheson, TFA nad yw'r rheoliadau'n ei gwneud yn glir beth yw'r gwahaniaeth rhwng tail organig y gellir ei bentyrru (e.e. tail buarth) a thail na ellir ei bentyrru (e.e. slyri). Mae yna baragraff bach, ond dylai'r diffiniad fod ar y dechrau i wneud hynny'n glir oherwydd bod rheolau gwahanol ar gyfer y deunydd. Dywedodd Dennis pa mor ddryslyd yw'r rheoliadau hyn a ph'un a ydych yn cael taenu tail buarth drwy gydol y gaeaf.

27. O ran storio, soniodd Dennis fod CNC wedi cymryd agwedd synhwyrol iawn, os nad yw ffermwr yn gallu bodloni'r gofynion storio oherwydd rhwystrau yn eu cytundeb tenantiaeth, ni fyddant yn cael eu cosbi ar unwaith, ar yr amod nad ydynt yn achosi unrhyw lygredd, a bydd CNC yn gweithio gyda nhw i geisio datrys y broblem. Yn wreiddiol, byddai Taliadau Gwledig Cymru wedi gosod cosb yn awtomatig o dan drawsgydymffurfio pe na bai gan ffermwr storfa briodol, ond maent bellach wedi'u halinio â CNC diolch i ymyrraeth Llywodraeth Cymru.

28. Soniodd Dennis am gyllideb ddiweddar San Steffan, sy'n debygol o gael effaith drychinebus ar denantiaethau. Bydd landlordiaid yn cymryd tir yn ôl er mwyn talu costau treth marwolaeth yn y dyfodol. Mae TFA eisoes wedi gweld achosion o hyn cyn y gyllideb lle mae landlordiaid yn gwrthod caniatâd i denant godi storfa slyri newydd, gan y gallai hyn gynyddu gwerth y daliad ac effeithio ar dreth etifeddiant. Bydd y sefyllfa yn awr yn llawer, llawer gwaeth. Mae hon yn gyllideb drychinebus i ffermwyr tenant ac ers hynny mae TFA wedi bod yn lobïo gyda Daniel Zeichner a Thîm y Trysorlys.

29. Dywedodd David ein bod yn tueddu i ganolbwyntio ar y sector llaeth oherwydd ei fod yn tueddu i fod â'r dwyseddau stocio mwy. Ond mae'r sector dofednod hefyd yn cael ei effeithio ac yn aml mae ganddo niferoedd uchel o adar, ac felly'n cynhyrchu llawer o nitrogen ar ddarnau gweddol fach o dir. Mae rheoli'r tail sy'n deillio o hynny yn aml yn dipyn o her. Fodd bynnag, mae llawer o'r busnesau hyn yn fusnesau integredig mawr iawn a bydd ganddynt weithdrefnau ar waith, ond yn ddieithriad mae'n cwmpasu allforio'r deunydd i ffermydd neu leoliadau eraill.

30. **Cwestiwn 4:** Soniodd Susannah am gynhyrchu dofednod a moch yn ddwys a gofynnodd a oedd gan y grŵp unrhyw sylwadau ynghylch y sectorau penodol hyn.

31. Awgrymodd Chris fod angen i ffermwyr edrych yn fanwl ar ofynion y gyfundrefn EPR ar gyfer moch a dofednod dwys oherwydd eu bod o dan drefn hollol wahanol. Fel rhan o'u trwyddedau, bydd llu o ofynion a bydd gwaredu'r tail o ffermydd dofednod yn un o'r gofynion hynny a dylid ei fonitro fel rhan o'r gyfundrefn EPR. Awgrymodd Chris, os yw'n gostwng, y byddai hynny o ganlyniad i arolygu a gorfodi annigonol. Dywedodd David y bydd rhai ffermydd o dan y terfyn niferoedd (e.e. 40,000 o adar a 2,000 o foch cynhyrchu). Eglurodd Michelle Griffiths, CNC fod trwyddedau moch a dofednod dwys EPR yn bodoli, ond na fydd allforio tail o'r safleoedd hynny yn dod o dan y trwyddedau hynny.

32. Cadarnhaodd Dennis nad yw tenant yn cael allforio unrhyw dail oddi ar eu fferm heb ganiatâd y landlord. Mae moch a dofednod yn yr awyr agored yn achosi problem ond mae'r tail sy'n deillio o gynhyrchu dan do hefyd yn achosi her. Soniodd Dennis am

achos ym Mhowys sydd wedi bod yn aros am gymeradwyaeth am fwy na 2 flynedd. Fe wnaeth Dennis hefyd drafod heriau a phroblemau wrth storio tail dofednod. Dywedodd David y gallai fod yn ddyletswydd ar y ffermwr hwnnw i ddangos bod y tail yn mynd i rywle ac yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd nad yw'n mynd y tu hwnt i'r rheoliadau.

33. **Cwestiwn 5:** Cododd Susannah yr her ynghylch yr angen am fuddsoddiad mewn capasiti storio a'r potensial ar gyfer negeseuon cymysg mewn perthynas â chynhyrchiant, cymhellion a chosbau cydymffurfio. Nid gan y llywodraeth yn unig y daw'r cymhellion, ond hefyd y gadwyn gyflenwi ac ysgogwyr y farchnad ar gyfer cynhyrchiant. Gofynnwyd i'r grŵp am adborth.

34. Dywedodd Dennis fod Cyngor Sir Powys yn edrych ar gynllun i beidio ag ail-osod rhai o'u tenantiaethau tymor byr a'u rhannu'n erddi marchnad ar gyfer tyfu ffrwythau a llysiau. Mae ffermio llysiau yn ddwys iawn ac mae angen lefelau uchel iawn o faetholion. Mae'r Cyngor yn credu bod galw mawr am ffrwythau a llysiau a dyfwyd gartref ac nad yw'r tir yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial. Fodd bynnag, deellir bod Llywodraeth Cymru eisiau defnydd helaeth o dir.

35. Dywedodd David nad gofynion y gadwyn gyflenwi yn unig allai fod yn ysgogi dwysáu ffermio, ond hefyd anghenion busnes y fferm. Er enghraifft, cynllunio olyniaeth pan fydd plentyn yn dychwelyd o'r coleg a'r angen i gael mwy nag un incwm o'r busnes. Mae'r pwysau hynny hefyd yn cael effaith gymdeithasol ac economaidd ar y gymuned wledig. Os nad yw fferm yn gallu cynyddu ei chynnyrch er mwyn cefnogi aelodau eraill o'r teulu, mae'r bobl hynny'n mynd i rywle arall.

36. Awgrymodd Rachel y dylai Susannah edrych ar yr ystadegau ar gyfer busnesau llaeth yn benodol a sut mae nifer y busnesau'n debygol o fod wedi lleihau dros y blynyddoedd. Mae'n debyg bod niferoedd yn gostwng, gan hefyd gynnal cynhyrchiant llaeth Cymru yn gyffredinol. Mae'r rhain yn fusnesau sy'n cyflogi nifer sylweddol o staff ac yn fusnesau pwysig yn eu cymunedau am y rheswm hwnnw. Mae llawer o fusnesau wedi gorfod wynebu'r penderfyniad eu bod naill ai'n gwneud y buddsoddiad sylweddol sy'n angenrheidiol ar gyfer parlyrau newydd, seilwaith newydd ac i dyfu'r busnes neu i wneud y penderfyniad i adael y diwydiant. Dyma'r realiti llym, nid yw'r farchnad bob amser yn darparu'r elw angenrheidiol ac mae'n gallu bod yn gyfnewidiol iawn.

37. Dywedodd Chris nad oedd yn credu bod y gadwyn gyflenwi'n gorfodi cynhyrchiant; mae'n gweithredu ar sail pris. Mae hyn yn symptom o gymdeithas ddim yn barod i dalu digon am yr hyn a gynhyrchir. Felly, ffactorau economaidd yw'r prif sbardun.

38. **Cwestiwn 6a:** Gofynnodd Susannah am yr effaith y gallai'r gadwyn gyflenwi ei chael o ran rheoli gofynion cytundebol o fewn cyfyngiadau'r rheoliadau.

39. Cynigiodd Rachel drefnu sgwrs ar wahân gydag arweinydd Llaeth NFU Cymru. Mae llaeth yn benodol yn cael ei arwain gan gontractau llaeth, ac rydych chi wedi'ch ymrwymo i gyflawni'r contract, sy'n gallu rhoi pwysau sylweddol ar ffermwyr. Nid yw hynny bob amser yn gyson â darn o reoliad sy'n ei gwneud yn ofynnol i ffermwr waredu 50 buwch o'i fuches a'r cynhyrchiant sy'n cyfateb â hynny, felly mae ffermwyr mewn sefyllfa anodd iawn. Soniodd Rachel am sicrwydd fferm a gofynion dilynol. Os canfyddir eich bod yn mynd yn groes i archwiliad sicrwydd fferm, a gallai hynny fod yn achos eithaf bach, caiff contract y gadwyn gyflenwi ei atal yn awtomatig. Mae hyn yn ychwanegu at y pwysau presennol ar y busnesau fferm hynny. Gall fod yn anodd iawn a gall effeithio'n sylweddol ar iechyd meddwl a lles y ffermwr, ei deulu a'i staff.

40. **Cwestiwn 6b:** Gofynnodd Susannah a yw busnesau cadwyn gyflenwi yn ymwybodol o’r heriau hyn a’r gwrthdaro posibl wrth gyflawni’r contractau hynny mewn rhai achosion.

41. Dywedodd Rachel fod y gadwyn gyflenwi yn ymwybodol. Pan oedd y rheoliadau’n cael eu cyflwyno, roedd y gadwyn gyflenwi’n bryderus iawn.

42. **Cwestiwn 7:** Gofynnodd Susannah i'r grŵp am adborth ynghylch y problemau posibl gyda chynllunio rheoli maetholion.

43. Roedd David yn creu mai un o’r problemau yw gwybodaeth ymysg ffermwyr, yn enwedig y broses reoli maethynnau a’r cyfrifiadau i gyfrifo’r hyn sydd ei angen ar wahanol gnydau dan drefniadau penodol, yn enwedig faint o nitrogen sydd ei angen neu faint sydd ar gael. Mae’n broses gymhleth i lawer o bobl. Yn amlwg mae opsiwn i gael ymgynghorydd neu agronomegydd i wneud y gwaith hwn ond mae cost ynghlwm. Dywedodd David ei bod yn bwysig i ffermwyr gael cymorth – o safbwynt gwybodaeth a chymorth ariannol. Tynnodd David sylw at y ffaith bod y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol yn gofyn am Gynllun Rheoli Nitrogen, nid oes unrhyw sôn am Gynllun Rheoli Maethynnau, a fyddai fwy na thebyg yn fuddiol o safbwynt amgylcheddol. Mae hyd yn oed cynllun nitrogen yn gymhleth i ffermwr ei gyflawni. Mae ffermwyr yn bobl brysur iawn ac yn gweithio oriau hir, ac mae treulio ychydig oriau yn eistedd i lawr yn gweithio ar hyn yn anodd, yn enwedig pan fo pethau eraill y byddent yn debygol o'u hystyried yn flaenoriaeth, fel gofalu am anifeiliaid. Byddai mwy o help i ffermwyr yn y maes hwn yn ddefnyddiol iawn.

44. Dywedodd Einir fod Cyswllt Ffermio newydd gynnal cyfres o ddigwyddiadau llygredd agored ledled Cymru. Nid yw llawer o ffermwyr yn ymwybodol bod disgwyl iddynt gadw’r llyfr gwaith nitrogen, sy’n peri cryn bryder. Nid yw rhai ffermwyr yn gwybod pa gofnodion y dylent fod yn eu cadw na sut i ddefnyddio’r llyfr gwaith. Mae ffermwyr yn brysur, ac er bod tri chwarter o’r wybodaeth angenrheidiol eisoes ganddynt yn y llyfr gwaith, nid ydynt yn defnyddio taenlenni o ddydd i ddydd, ac nid oes gan lawer ohonynt y sgiliau i fewnbynnu’r wybodaeth honno’n hyderus i’r llyfr gwaith. Mae gan ffermwyr yr opsiwn i’w gwblhau â llaw gan nad oes rhaid iddo fod yn y fformat hwnnw. Mae'r elfen hon yn achosi llawer o bryder i'r diwydiant gan ei fod yn gymhleth. Mae llawer o bobl yn cysylltu â Cyswllt Ffermio i ofyn am help gyda hyn. Nid yw Cyswllt Ffermio yn cael ariannu’r broses o lenwi’r llyfr gwaith, ond mae llawer o gefnogaeth ar gael ar y dudalen we. Yr adborth gan ffermwyr yw bod cwblhau’r daenlen yn drwm o ran gwaith.

45. Dywedodd Sarah Jones fel cwmni dŵr ac yn enwedig o safbwynt y dalgylch dŵr yfed, mae angen iddo fod yn gynllun rheoli maetholion fferm gyfan. Byddem yn cefnogi ffermwyr yn gwneud y gwaith o safbwynt y fferm gyfan. Roedd Sarah yn cydnabod bod sbectrwm lawn o ffermwr fwy na thebyg lle mae rhai’n deall y rheoliadau’n llawn a bydd angen llawer mwy o gymorth ar eraill. Mae angen i unrhyw gymorth a ddarperir fod yn barhaus er mwyn helpu pobl i ddysgu ac ymwreiddio’r wybodaeth yn eu busnes o ddydd i ddydd. Mae Cyswllt Ffermio yn gwneud gwaith da iawn, ac mae’n bwysig ei fod yn parhau. Efallai y bydd rhai pobl yn mynychu sesiwn ac yn dysgu pethau’n hawdd, ond efallai y bydd angen mwy o gymorth rheolaidd a pharhaus ar eraill. Awgrymodd Sarah y dylid edrych ar gapasiti ac argaeledd arbenigwyr medrus a thechnegol i ddarparu'r cymorth hwn yn y dyfodol. Er enghraifft, a oes digon o gynghorwyr i helpu gyda graddfa’r cymorth sydd ei angen. Mae rhai o'r cynghorwyr adnabyddus yn wych ond maen nhw'n symud tuag at oedran ymddeol, efallai bod angen i ni edrych i weld a oes pobl newydd yn dod drwodd i gefnogi’r diwydiant at y dyfodol.

46. **Cwestiwn 8:** Gofynnodd Susannah i'r grŵp roi sylwadau ar gapasiti cynghori contractwyr a sefydliadau eraill ac a yw'n ddigon i gefnogi anghenion y diwydiant.

47. Roedd Creighton yn cofio gwybodaeth a rannwyd gyda'r grŵp yng nghyfarfod diwethaf Is-grŵp WLMF ar 21 Hydref, mai un o'r prif resymau dros ddiffyg cydymffurfio oedd naill ai diffyg Cynllun Rheoli Nitrogen neu ddiffygion yn y cynllun hwnnw. Mae hwn yn fater pwysig iawn. O ran y Dull Rheoli Maethynnau Uwch, mae ffermwyr i fod i roi manylion eu dadansoddiad pridd, gan gynnwys ffosffad. Mae'r Dull Rheoli Maethynnau Uwch yn gofyn yn benodol am fanylion lefelau ffosffad, nid dim ond nitrogen. O gofio nifer y ffermydd nad ydynt yn cydymffurfio oherwydd y mater hwn, mae'n eithaf amlwg bod diffyg tystiolaeth ar gael. Mae'n bwysig iawn bod ffermwyr yn cael eu cefnogi i sicrhau bod ganddynt Gynlluniau Rheoli Nitrogen cywir.

48. Atgoffodd David Susannah o'r argymhellion yn Adroddiad Grŵp Technegol Amaethyddol Afonydd ACA - roedd un yn ymwneud â sicrhau bod cyllid, cyngor a chymorth ar gael i ffermwyr.

49. Awgrymodd Rachel fod mater y Cynlluniau Rheoli Nitrogen wedi'i gynnwys yn y gofynion cadw cofnodion cyffredinol a'r baich cyffredinol o gadw cofnodion sy'n gysylltiedig â'r rheoliadau. Mae’n ymwneud mwy â phrosesau ac nid canlyniadau o reidrwydd. Nid yw’r ffaith eich bod yn cyflawni’r broses ai peidio yn golygu eich bod yn llygru, ac nid yw’n golygu eich bod yn gwella ansawdd dŵr. Mae cyfleoedd sylweddol i wella gofynion cadw cofnodion ac i wneud hynny’n haws i ffermwyr. Rhoddodd Rachel enghreifftiau o ffermwyr sy’n talu ymgynghorwyr i’w helpu gyda’r gwaith papur. Fodd bynnag, mae’r cofnodion hynny’n hen y funud mae’r ymgynghorwyr yn gadael y fferm. Mae ffermwyr yn gweld hyn yn anodd am ei fod mor gymhleth, ac mae angen iddynt gael eu hadolygu a’u diweddaru’n barhaus. Nid oedd Rachel yn siŵr am gapasiti ymgynghorwyr i gefnogi’r diwydiant. Mae’n teimlo bod y gefnogaeth yno, ond nid dyma’r math o gymorth parhaus y mae ffermwyr ei angen i gydymffurfio gyda gofynion cadw cofnodion. Dywedodd Rachel y dylai hyn ymwneud â chwilio am atebion; cyhoeddwyd y cynigion amlinellol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) yn gynharach yn y flwyddyn a oedd yn sôn am gynllunio iechyd pridd a’r gofyniad i samplu caeau ar gyfer N, P, K a charbon organig pridd. Efallai y dylai’r adolygiad ystyried lle mae’r rheoliad hwn yn cyd-fynd â’r cyd-destun cyffredinol. Dywedodd Susannah fod y ffordd y mae'r rheoliad hwn yn rhyngweithio ag agweddau eraill ar yr amgylchedd rheoleiddio yn bwysig iawn.

50. Roedd Dennis yn cytuno â phwyntiau Rachel ynglŷn â’r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a samplu pridd. Soniodd Dennis ei fod yn aml wedi cwestiynu’r gofynion gwaith papur, mae’n edrych yn dda iawn ar bapur, ond yn ymarferol, mae’n fwy o ymarfer ticio bocsys.

51. **Cwestiwn 9:** Roedd Susannah yn dymuno dod yn ôl at y gofyniad ar gyfer storio slyri, yn enwedig yr heriau’n ymwneud â’r buddsoddiad angenrheidiol i sicrhau’r lefel ofynnol o storfa ar gyfer slyri a’r potensial ar gyfer storio slyri.

52. Atgoffodd Dennis y grŵp ei fod eisoes wedi tynnu sylw at rai o'r problemau i denantiaid ynghylch y gofynion storio. Soniodd Dennis am y cynnig ar gyfer Parc Cenedlaethol newydd yng ngogledd ddwyrain Cymru. Cynhaliwyd sioe deithiol CNC ddydd Sadwrn diwethaf, a fynychwyd gan Dennis. Roedd Dennis wedi codi cwestiwn a oedd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn dod yn awdurdod cynllunio ac yn drech na’r penderfyniadau a wnaed gan y Cyngor Sir mewn perthynas â storfeydd slyri newydd ac

ati. Dywedodd Dennis ei fod wedi'i sicrhau nad yw hwn yn bolisi, ond y gallai fod yn broblem benodol. Dywedodd Dennis nad yw storfa slyri’n datrys y broblem, dim ond ei gohirio. Efallai y byddai’n llawer gwell defnyddio’r adnoddau i ddod o hyd i ffyrdd o leihau faint o slyri sydd angen ei storio, ac nid drwy leihau niferoedd eich stoc, ond drwy ei drosi’n rhywbeth y gellir ei gludo. Mae'r grŵp hwn wedi derbyn cyflwyniadau gan sefydliadau sydd eisoes yn ymchwilio i hyn - y prif rwystr yw’r gost. Cofiodd Dennis am ymweliad blaenorol gan gwmni o’r enw Free Energy sydd wedi’i leoli y tu allan i Wrecsam. Efallai bod buddsoddi mewn technoleg yn well na chynyddu maint storfeydd slyri yn unig.

53. Dywedodd Rachel ei bod hi’n bwysig cydnabod bod ffermwyr yn ystyried ei fod yn cynnwys maethynnau gwerthfawr a’u bod eisiau ei gadw fel nad oes rhaid iddynt brynu gwrtaith. Yn anecdotaidd, mae ffermwyr sydd wedi gallu buddsoddi mewn storfeydd slyri yn gweld buddion posibl gan eu bod yn gallu gwneud y defnydd gorau o’r maethynnau sy’n cael eu gwasgaru, felly mae’n lleihau eu dibyniaeth ar wrtaith wedi’i weithgynhyrchu. Fodd bynnag, yn aml mae rhwystrau sylweddol y mae angen eu goresgyn, er enghraifft heriau gyda’r system gynllunio ac oedi, gwrthwynebiad lleol, cyllid ac ati. Pan aeth Gogledd Iwerddon yn diriogaeth NVZ yn gyfan gwbl 15 mlynedd yn ôl, roedd cyllid o £140 miliwn gan y llywodraeth yn cyd-fynd â’r broses, ynghyd â chyfradd ymyrraeth grant o 60% i helpu ffermwyr i gyrraedd y nod Yng Nghymru, mae’n teimlo ei bod wedi bod yn ormod o her ariannol i ormod o ffermwyr a’i bod yn rhy anodd cyflawni hyn i gyd a’i gyflawni mewn pryd.

54. Soniodd Creighton am y Prosiect Slyri a ddechreuodd yng Ngholeg Gelli Aur yn 2018. Mae'r grŵp hwn wedi clywed nifer o gyflwyniadau gan John Owen ynglŷn â'r prosiect. Mae’r prosiect wedi dod i ben ers hynny, a’r disgwyliad oedd y byddai system wedi cael ei datblygu lle byddai’r gyfran solid yn cael ei dynnu allan o’r hylif mewn slyri, gan dynnu’r maetholion allan o’r hylif. Yn anffodus, ni chafodd hyn ei gyflawni mewn modd economaidd, ac roedd yn rhy ddrud o safbwynt llafur a buddsoddiad cyfalaf. Yn ystod y cyflwyniad diwethaf, gofynnwyd i John Owen am y statws presennol a dywedodd eu bod yn aros am bartneriaid masnachol. Dyma un o’r materion mwyaf sy’n wynebu’r diwydiant ledled y byd, ond eto ar ei ben ei hun yn y wlad hon. Dylai ymchwil barhau oherwydd ei bod yn bwysig dod o hyd i atebion.

55. Dywedodd David fod nifer o brosiectau ledled y DU yn edrych ar reoli slyri yn benodol a bod datrysiadau yn dechrau dod i’r farchnad. Fodd bynnag, mae angen buddsoddiad cyfalaf ar bob un ohonynt sy’n debygol o fod yn fwy na’r buddsoddiad gofynnol ar gyfer cynyddu capasiti storio slyri. Mae atebion yn dod i’r amlwg, ond mae’n bosibl y byddai’r buddsoddiad cyfalaf angenrheidiol yn amharu ar y gyfradd fabwysiadu.

56. Awgrymodd Sarah Jones os mae ffermwyr yn ystyried buddsoddi mewn technoleg, byddai eisiau sicrwydd gan y rheoleiddiwr ei fod yn mynd i fod yn ffordd dderbyniol o ymdrin â’u slyri. Felly mae angen i’r rheoleiddwyr fod yn rhan o’r broses arloesi a’u bod wedi meddwl am y camau nesaf, e.e. a oes angen trwydded.

57. Soniodd Creighton fod CNC yn aml yn cael ei feirniadu, weithiau’n deg, weithiau’n annheg. Yn yr achos hwn, mae CNC yn rhan o ddatblygiad amrywiaeth o brosesau ar gyfer ymdrin â slyri, a phan fo problemau gyda’r cynnyrch terfyno, mae CNC yn nodi hynny. Mae CNC yn gwneud yn dda iawn ar adegau, ac mae hwn yn achos lle nad rhoi sêl bendith ar ateb posibl yn unig oedd y bwriad - maent wedi bod yn adolygu’r ateb yn gritigol ac yn wyddonol drwy gydol y broses ddatblygu.

58. O ran buddsoddi mewn arloesi, dywedodd Andrew fod angen sicrwydd o farchnadoedd ar gyfer y cynnyrch terfynol, yn ogystal â’r tir sydd ar gael i’r maetholion hynny gael eu gwasgaru.

59. Roedd Matt Walters, Llywodraeth Cymru yn cofio pwyntiau cynharach ynghylch yr asesiad economaidd o’r 170kg/ha. Mae Llywodraeth Cymru ar fin cwblhau'r gwaith a bydd hyn yn cefnogi'r adolygiad. Mae’n bosibl y byddwn mewn sefyllfa i rannu rhywfaint o’r gwaith hwnnw yn y cyfarfod nesaf ym mis Rhagfyr. Dywedodd Rachel ei bod yn bwysig iawn bod y grŵp hwn yn gweld yr Asesiad Effaith Rheoleiddio, yn enwedig o ran tryloywder.

60. Gofynnodd Chris a oes gennym ni’r data mewn gwirionedd ar gyfer statws presennol capasiti storio slyri yng Nghymru, er enghraifft faint o ffermydd sy’n bodloni’r gofyniad ar hyn o bryd mewn gwirionedd.  Dywedodd Matt fod y data sydd ar gael ar hyn o bryd yn dod o’r Prosiect Llaeth, canlyniadau arolygiadau CNC ac ati. Nid oes gennym restr gyflawn o bob fferm a phob storfa slyri ac a ydynt yn bodloni'r gofyniad ai peidio. Awgrymodd Chris ei bod yn ymddangos bod hwn yn ddarn eithaf sylfaenol o wybodaeth sydd ei angen cyn asesu effeithiolrwydd y rheoliadau. Dywedodd Susannah y byddai’n sicr yn edrych ar y data i weld beth y gellir ei dynnu o hynny. Yn amlwg, nid yw casglu data helaeth ar y cam hwn yn mynd i gyd-fynd ag amserlen yr adolygiad. Fodd bynnag, gallwn edrych ble mae bylchau data a gwneud argymhellion yn gysylltiedig â’r rheini.

61. Awgrymodd Creighton y gallai'r cyfnod caeedig fod yn bwnc addas ar gyfer trafodaeth bellach, yn enwedig o ran cydymffurfio.

62. Dywedodd Dennis nad yw Cymdeithas y Ffermwyr Tenant wedi cael trafodaeth benodol wyneb yn wyneb â Susannah hyd yma, ond y byddent yn croesawu un yn fawr iawn - yn enwedig trafodaeth benodol ar faterion tenantiaeth. Dywedodd Andrew y byddai mewn cysylltiad yn fuan i drefnu rhywbeth.

63. Dywedodd Susannah ei bod yn mynychu'r Ffair Aeaf ddydd Llun 25 Tachwedd ac y byddai'n mwynhau gweld yr aelodau yno.

64. Diolchodd Rhys i'r grŵp am gyfrannu at y drafodaeth hon. Gobeithio ein bod ni wedi rhannu rhywfaint o wybodaeth ddefnyddiol ar gyfer y pwyntiau penodol hynny. Gofynnodd Rhys am nodyn atgoffa o'r amserlenni ar gyfer yr adolygiad. Bydd Susannah yn paratoi’r adroddiad drafft ar gyfer Ionawr 2025. Bydd angen cyhoeddi’r adroddiad erbyn diwedd mis Mawrth 2025, sef y dyddiad cau terfynol. Gobeithio y bydd y gwaith casglu a mewnbynnu data wedi’i gwblhau erbyn diwedd mis Tachwedd. Bydd yr adroddiad drafft yn cael ei baratoi yn ystod mis Rhagfyr.

## Eitem 4. Unrhyw fater arall

65. Cynhelir y Ffair Aeaf ar 25-26 Tachwedd - bydd gan Lywodraeth Cymru a CNC stondinau yn y Ffair. Bydd nifer o'r aelodau hefyd yn mynychu.

66. Soniodd Rachel fod adolygiad 4 blynedd CoAPR yn fater pwysig iawn i ffermwyr, ond mae llawer o bryderon eraill i’r diwydiant ar hyn o bryd. Mae llawer o ffermwyr yn poeni, a dylem ystyried hyn wrth ymdrin â’r gymuned ffermio. Mae llawer iawn o bwysau ar y diwydiant a rhai pryderon gwirioneddol a sylweddol iawn ynghylch materion iechyd meddwl. Diolchodd Rhys i Rachel am y nodyn atgoffa pwysig hwn.

67. Cynhelir cyfarfod nesaf Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ddydd Llun 16 Rhagfyr 2024.

68. Ni chodwyd unrhyw faterion ychwanegol.